**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**PANEL GWEITHREDOL GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**19eg Gorffennaf 2010**

**RHYBUDDION TÂN DIANGEN WEDI EU HACHOSI GAN SYSTEMAU SYNHWYRO TÂN AWTOMATIG**

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Uwch Reolwr Diogelwch Tân**

**Diben yr Adroddiad**

1 Darparu trosolwg i Aelodau o fodel, a ddefnyddir gan Wasanaeth Tân ac Achub Swydd Rhydychen, o ddelio gyda Rhybuddion Tân Diangen wedi eu hachosi gan systemau Larwm Tân Awtomatig.

**Cefndir**

2 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Rhydychen yn meddu ar strategaeth, ers rhai blynyddoedd bellach, sydd â'r bwriad o leihau'r nifer y Rhybuddion Tân Diangen. Mae'r strategaeth ar ffurf polisi ac wedi ei rannu i bedwar prif ran.

a. Rhan 1 - Cyngor gwell yn ystod cyfnodau cynllunio a dylunio - Golyga hyn fod Swyddogion Diogelwch Tân Deddfwriaethol yn cynnig cyngor i ran-ddeiliaid ar sut i reoli larymau tân awtomatig. Mae'r cyngor hyn wedi ei selio ar arweiniad cenedlaethol ac arfer gorau gan ganllawiau perthnasol.
b. Rhan 2 - Rheoli digwyddiadau lleol yn effeithiol a phrofi a chynnal a chadw larymau tân gan yr Unigolyn Cyfrifol -Dylai pob adeilad sicrhau pam fod y larwm wedi seinio cyn galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Fe anogir Canolfannau Monitro Larymau i beidio â bod ar lein yn ystod oriau gwaith arferol.
c. Rhan 3 - Cytundebau safonol gyda Chanolfannau Monitro Larymau - Cytundeb ysgrifenedig eglur gyda'r Canolfannau Monitro Larymau i sicrhau ffordd safonol o weithredu a gyda hynny hyrwyddo diwylliant o gydgyfrifoldeb.

d. Rhan 4 Ffyrdd amgenach o adnabod adeiladau sydd yn broblem a defnyddio pwerau'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio - Nid yw GTA Swydd Rhydychen yn ailosod systemau Larwm Tân Awtomatig fel rhan o'r drefn, a thrwy hynny mae trigolion yr adeilad yn dod yn fwy ymwybodol o'r problemau sydd ynghlwm wrth alwadau tân diangen a'u gwneud yn fwy rhyngweithiol wrth ddelio gyda hwy.

## Egwyddor y Lleihad

3 Mae Swydd Rhydychen wedi bod yn llwyddiannus gyda'u strategaeth oherwydd nad ydynt yn mynychu Rhybuddion Tân Diangen sydd wedi eu hachosi gan systemau Larwm Tân Awtomatig oni bai fod tân wedi ei gadarnhau, ac eithrio yn yr amgylchiadau canlynol:

a. Os yw'r adeilad yn wag;
b. Os oes pobl fregus a dim staff, neu dim staff digonol, ar gael i wirio'r adeilad;
c. Os yw asesiad risg gan Wasanaeth Tân ac Achub yn dynodi y dylent fynychu;
d. Lle bo amgylchiadau eraill yn penderfynu pe dylid mynychu.

## Canlyniadau

4 Mae model Swydd Rhydychen wedi lleihau'r Rhybuddion Tân Diangen a'r nifer a gofnodir, fodd bynnag ar y cychwyn gwelwyd cynnydd yn niferoedd y galwadau 999,sydd nawr wedi lleihau oherwydd rheolaeth leol.

5 Datblygiad pellach yw fod Swydd Rydychen, wrth dderbyn galwad gan system fonitro, yn cysylltu â'r adeilad er mwyn sicrhau os oes angen i'r gwasanaeth tân fynychu a'u bod yn ymateb yn briodol. Os nad oes ymateb yna bydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynychu.

## Sefyllfa Gogledd Cymru

6 Er nad yw GTAGC wedi mabwysiadu model Swydd Rydychen, mae'r Gwasanaeth yn defnyddio egwyddorion tebyg i'r rhai a restrir yn y fodel. O ganlyniad mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i leihau'r niferoedd o Rybuddion Tân Diangen yn flynyddol yn seiliedig ar fonitro agos a rheolaeth leol.

7 Dengys y tabl isod fod y Gwasanaeth, dros y blynyddoedd diwethaf, yn mynychu llai o ddigwyddiadau o ganlyniad i rybuddion gan systemau larwm tân awtomatig mewn adeiladau annomestig:

| Blwyddyn | 2005/2006 | 2006/2007 | 2007/2008 | 2008/2009 | 2009/2010 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 2,202 | 2,092 | 2,020 | 1,707 | 1,646 |

8 Mae'r gostyngiad yma'n rhan o'r gwaith parhaol rhwng y Gwasanaeth ac adeiladau ar draws Gogledd Cymru, yn bennaf y rheiny a adnabyddir fel adeiladau problem oblegid fod nifer cyfartalog y Rhybuddion Tân Diangen yn uwch na'r arfer. Mae'r ysbytai cyffredinol yn parhau i weithio tuag at wella eu systemau a'u dulliau o hysbysu. Mae gan Brifysgol Bangor dros 300 o adeiladau sy'n cael eu monitro, bydd y rhif yn cynyddu gan fod mwy o neuaddau preswyl yn cael eu codi. Mae'r Brifysgol wrthi'n ymgynghori gyda Swyddogion lleol ac yn gosod systemau modern sy'n fwy soffistigedig ac yn datblygu system reoli gadarn.

9 Er mwyn parhau i leihau'r nifer o weithiau yr ydym yn mynychu'r adeiladau, mae'r Gwasanaeth am wneud defnydd o aelodau'r tîm deddfwriaethol canolog er mwyn ymchwilio i adeiladau sydd yn broblem ar draws ein man gwasanaethu a chwblhau archwiliadau diogelwch tân dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Bydd yr archwiliadau hyn yn canolbwyntio ar y system larwm tân a'r unigolyn sydd gan gyfrifoldeb am y system. Delir ag adeiladau lle ceir rhybuddion tân diangen, oherwydd nad yw'r system larwm tân yn cael ei gynnal a'i gadw'n iawn neu ei fod yn anaddas, dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio.

10 Rhoir ystyriaeth yn ogystal i ymateb i larymau tân awtomatig gan gwmnïau sydd yn monitro mewn ffordd debyg i fodel Swydd Rydychen drwy gysylltu â'r adeilad cyn mynychu er mwyn gallu ymateb yn briodol.

## Cydbwyso'r Broblem

11 Ni ddylai'r gorchymyn i leihau'r nifer o Rybuddion Tân Diangen fyth gyfaddawdu'r angen am system sydd yn synhwyro tân yn gynnar ac sydd yn rhybuddio'r trigolion fel y gallant roi'r cynllun dân mewn argyfwng ar waith gan gynnwys gwacau'r adeilad.

**Argymhelliad**

12 Argymhellir fod yr Aelodau'n nodi llwyddiannau'r Gwasanaeth dros y 5 mlynedd ddiwethaf a bod y gwaith yn parhau i gynnal y lleihad hwn.